# Atodiad i GTAA Sir y Fflint 2022

## Cyflwyniad

1.1 Ar draws Sir y Fflint o fis Chwefror 2022, roedd yna 18 o safleoedd preswyl gydag 82 o leiniau ar gyfer 78 o aelwydydd (y gwahaniaeth yn sgil rhai aelwydydd yn defnyddio sawl llain). Derbyniwyd gwybodaeth ar 56 aelwyd drwy gyfweld aelwydydd a data rheoli safle.

1.2 Mae'r angen am leiniau preswyl a sefydlwyd yn y GTAA ar gyfer Sir y Fflint wedi'i nodi yn Nhabl AD1.

**Tabl AD1** Angen am leiniau preswyl yn y dyfodol

| Sir y Fflint | Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) i 2022-2026 | Angen heb ei ddiwallu (cyfnod cynllun) 2022 i 2030 |
|---|---|---|
| Cyn cysoni posibl safleoedd awdurdodedig a diawdurdod dros dro | 23 | 27 |
| Yn dilyn cysoni posibl safleoedd awdurdodedig a diawdurdod dros dro | 2 | 6 |

1.3 Roedd y GTAA yn nodi cyflenwad posibl o 23 llain ychwanegol drwy ehangu/dwysau y safleoedd presennol canlynol:

- Riverside + 10 llain
- Magazine Lane +9 llain
- Gwern Lane +4 llain

## Darparu ers Chwefror 2022

1.4 Ers i'r GTAA gael ei gwblhau, mae 22 llain wedi eu cymeradwyo i helpu i nodi'r angen (Tabl AD2). Mae'r rhain yn cynnwys lleiniau yn Magazine Lane a Gwern Lane fel y nodwyd yn lleiniau posibl yn y GTAA yn ogystal â 9 llain ar safleoedd preifat.